# Aelodaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

31 Hydref 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *A fyddech cystal â darparu'r mecanwaith gweithdrefnol o sut y mae Dafydd Elis-Thomas a Nathan Gill yn cadw sedd ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol pan nad oes gan yr un ohonynt fandad ar hyn o bryd, ar ôl ymddiswyddo o'u pleidiau gwreiddiol sy'n cadw'r mandad.*

Mae'r gweithdrefnau perthnasol wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, sydd ar gael yma www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/bus-assembly-guidance.aspx. Er gwybodaeth:

- Rhoddodd Dafydd Elis-Thomas orau i fod yn Aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol pan adawodd grŵp gwleidyddol Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol (fel y rhagnodir gan Reol Sefydlog 17.12; mae'r diffiniad o grŵp gwleidyddol ar gael yn Rheol Sefydlog 1.3).
- Nid oedd Nathan Gill yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr adeg iddo adael grŵp gwleidyddol UKIP yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Rheolau Sefydlog 17.13 i 17.15 yn nodi'r weithdrefn a ddilynwyd gan y Pwyllgor Busnes a arweiniodd at y Cynulliad (yn y Cyfarfod Llawn) yn cytuno i'w benodi fel Aelod o'r Pwyllgor hwnnw. (Gweler hefyd Reol Sefydlog 17.10 sy'n nodi bod yn rhaid i bob Aelod nad yw'n perthyn i grŵp gwleidyddol gael cynnig lle ar un pwyllgor o leiaf.)

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

gwefan yn [www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx](http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx)
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF